

CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Tŷ Russell, Prestatyn ar ddydd Llun, 11eg Hydref 2010 am 10.00a.m.

YN BRESENNOL

Yn cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych

Y Cyngorwyr: C.M. Evans, G.C. Evans

Yn Cynrychioli Enwadau Crefyddol

H. Ellis, R. Elms, B. Wyn Evans, S. Harris a'r Parchedig B H Jones

Yn Cynrychioli Cymdeithasau'r Athrawon

M. Bradshaw (Cadeirydd), C. Harmsworth ac L. Linaker

Aelodau Cyfetholedig

G. Craigen, M.B. Lloyd a T. Ap Siôn

HEFYD YN BRESENNOL

Uwch Ymgynghorydd Dysgu AG (PL) a Chlerc CYSAG (EC)

YMDDIHEURIADAU

Y Cyngorwyr: J.A. Davies, C. Hughes, M.M. Jones, a J.G. Yorke

Mr.M. Hatch, Mrs. M. Phillips a Mrs. E. Wright,

MYFYRDOD TAWEL

Cychwynnodd y cyfarfod gydag ychydig funudau o fyfyrddod tawel.

CROESO

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

1 MATERION BRYD

Nid oedd unrhyw faterion bryd ar y pwynt hwn yn y cyfarfod.

2 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) a gynhaliwyd ar 7fed Mehefin 2010 (a ddsbarthwyd ymlaen llaw).

Gan nad oedd unrhyw newidiadau na materion yn codi:

PENDERFYNWYD derbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod CYSAG a gynhaliwyd ar 7fed Mehefin 2010 fel cofnod cywir.

3 DADANSODDIAD O ADRODDIADAU ARCHWILIO YSGOLION

Cyflwynodd yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu AG adroddiad (a ddsbarthwyd ymlaen llaw) yn dadansoddi canlyniadau archwiliadau pedair ysgol rhwng mis Mai a Gorffennaf 2010 o ran darparu Datblygiad Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol ac Addysg Grefyddol lle'r oedd yn rhan o'r archwiliad. Cafwyd archwiliad yn Ysgol Betws Gwerful Goch, Ysgol Gynradd ac Ysgol Uwchradd y Santes Ffraid, Dinbych, Ysgol Llanfair ac Ysgol Uwchradd y Rhyl. Roedd crynodeb o hanes pob ysgol wedi ei ymgorffori yn yr adroddiad.

Roedd yn dda nodi bod y pedair ysgol wedi derbyn 63 o sylwadau cadarnhaol rhyngddynt. Adroddwyd 15 sylw negyddol.

Anogodd y Cadeirydd yr aelodau i ddarllen yr adroddiadau archwilio llawn ar gyfer yr ysgolion a oedd yn rhoi'r amrywiol elfennau archwilio mewn cyd-destun. Tanlinellodd bod yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu AG wedi ymweld â'r ysgolion i ddarparu cymorth gyda'r archwiliadau. Cytunwyd anfon llythyrau yn y modd arferol yn llongyfarch yr ysgolion ar eu nodweddion positif.

PENDERFYNWYD:-

(a) derbyn a chydabod yr adroddiad, a

(b) anfon llythyrau at yr ysgolion a archwiliwyd yn eu llongyfarch ar y nodweddion da a adnabuwyd yn yr archwiliadau.

4 ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT CYSAG SIR DDINBYCH 2009-2010

Cyflwynodd yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu AG ddrafft o Adroddiad Blynyddol CYSAG Sir Ddinbych 2009-2010 (a ddsbarthwyd ymlaen llaw) a oedd yn amlinellu i'r aelodau fanylion gweithgareddau CYSAG yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol, gan gynnwys cyngor a roddwyd i'r Awdurdod Addysg Lleol a materion lleol a chenedlaethol eraill.

Gwahoddwyd yr aelodau i ystyried a chodi unrhyw faterion neu newidiadau i sicrhau cywirdeb yn yr adroddiad drafft cyn ei gyflwyno i'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (ADAPGOS) ar ei ffurf derfynol erbyn 31ain Rhagfyr 2010:

CYWIRDEB

Tudalen 10:-

lii) Dogfennau Arweiniad – Cytunodd y Pwyllgor gydag awgrym gan yr Aelod Cyfetholedig G. Craigen, bod y Ddogfen 'That's the Spirit' yn cael ei hachredu dan yr adran hon.

iv) Adnoddau a argymhellwyd – newid y paragraff i ddarllen 'Unwaith y bydd y peilot ar gyfer adnoddau uned pontio Cyfnod Allweddol 2/3 wedi ei gwblhau, byddant ar gael i holl ysgolion Sir Ddinbych.'

Tudalen 13:-

Pennaeth Babanod: newid i 'Linda Linaker' i gael sillafiad cywir.

Tudalen 14:-

Cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych: Cynnwys y Cynghorydd C M Evans yn y rhestr hon.

Aelodau Cyfetholedig: Ychwanegu G Craigen i'r rhestr.

Tania Ap Siôn i'w rhestru fel cynrychiolydd 'Canolfan Santes Fair'

MATERION YN CODI

Mynegodd yr aelodau eu pryder bod 'enwebiadau i ddod' o hyd yn amrywiol adrannau cynrychiolwyr CYSAG. Tanlinellodd yr Aelod Cyfetholedig M. Lloyd anawsterau cael enwebiadau dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, er gwaethaf anfon llythyrau dair gwaith y flwyddyn. Cytunodd yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu AG archwilio'r sefyllfa bresennol o ran cael enwebiadau ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor.

Diolchodd y Cadeirydd a chanmol yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu AG am yr ymdrechion a wnaethpwyd i lunio adroddiad cynhwysfawr.

PENDERFYNWYD : -

- (a) *Yn amodol ar y newidiadau a nodwyd uchod, cymeradwyo Adroddiad Blynyddol CYSAG Sir Ddinbych ar gyfer 200902010 fel cofnod cywir,*
- (b) *Gofyn i'r Awdurdod Addysg Lleol drefnu cyfieithu, argraffu a dosbarthu'r adroddiad i holl ysgolion a cholegau Sir Ddinbych a derbynwyr eraill yn unol â'r gyfraith ac fel y nodwyd yn yr adroddiad, a*

(c) *Bod yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu AG yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y sefyllfa ddiweddaraf ar geisio cael enwebiadau addas ar gyfer y swyddi gweigion ar CYSAG.*

5 CYFLWYNIAD AR GYMEDROLI CYFNOD ALLWEDDOL 3: SICRHAU ASESIAID ATHRAWON YN CA3

Cyflwynodd yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu AG adroddiad llafar yn rhoi trosolwg i'r Aelodau ar y broses Gymedroli beilot yn cychwyn yn yr ysgolion eleni. Aeth ymlaen i ddweud y byddai cyflwyniad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a chynrychiolwyr CBAC yn digwydd ar 19eg Hydref, i hysbysu athrawon AG ar faterion yn ymwneud â'r broses gymedroli.

Byddai'r broses yn gweithio wrth i athrawon gasglu ynghyd esiamplau o wahanol lefelau gallu o 4 i 7 mewn AG o waith disgyblion a gyflwynwyd yng nghyfnod allweddol 3, gan lunio portffolio. Byddai'r cymedrolwyr yna'n arfarnu athrawon o ran a oeddent yn lefelu disgyblion yn briodol, yn seiliedig ar y portffolios a gyflwynwyd.

Byddai asesiadau yn arwain at y graddfeydd canlynol:

- A:** cymedrolwyr yn cytuno gyda'r lefelau
A (I): Cytuno; rhai mân faterion a fyddai angen adroddiad dilynol
I: Materion arwyddocaol; angen ailgyflwyno ar ôl adroddiad a anfonir i'r ysgol yn amlinellu'r problemau sydd angen eu datrys

Yn ystod y cyflwyniad a'r drafodaeth a ddilynodd, rhai o'r pwyntiau allweddol a wnaed oedd:

- Cyflwynwyd y broses hon i ddilysu dealltwriaeth yr adran o AG yn ei chyfanrwydd
- Byddai unrhyw archwiliad dilynol yn cael ei wneud trwy CYSAG fel corff llywodraethu. Byddai Uwch Ymgynghorwyr Dysgu yn derbyn adroddiad cymedroli pob ysgol, a fyddai'n cael ei fwydo'n ôl i'r pwyllgor.
- Er gwaethaf yr ymateb negyddol gwreiddiol i'r peilot, cadarnhawyd bod 45 o ysgolion Cymru bellach wedi ymuno – byddai angen i'r rhai nad oeddynt eisoes wedi ymuno wneud hynny erbyn trydedd flwyddyn cyfnod y peilot, yn unol â chanllawiau LICC
- Roedd y Portffolios i'w cyflwyno ym mis Mai 2011. Adroddodd yr Aelod Cyfetholedig G Craigen bod nifer o adrannau AG eisoes wedi llunio eu portffolio yn barod.
- Byddai 'Fforwm Penaethiaid AG' lle byddai amserlenni yn cael eu llunio yn cynnwys tasgau ar gyfer y flwyddyn i ddod, i'r adrannau AG weithio ohonynt, ac i roddi dyddiadau iddynt erbyn pryd fyddai angen cyflwyno gwaith; byddai hefyd yn ceisio eu helpu i ganfod darnau gwaith priodol i'w cyflwyno
- Byddai fersiynau drafft y dogfennau enghreifftiol ar gael i ysgolion i'w helpu gyda'r broses asesu.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Uwch Ymgynghorydd Dysgu AG am ei gyflwyniad difyr, llawn gwybodaeth, ac roedd yr aelodau wedi eu calonogi gan y mentrau a oedd ar y gweill er mwyn rhannu arferion gorau mewn AG.

PENDERFYNWYD derbyn a chydnabod y cyflwyniad gan yr Uwch Ymgynghorydd AG.

6 CYMDEITHAS CYSAG CYMRU

Cofnodion drafft Cymdeithas CYSAG Cymru – 24ain Mehefin 2010

Cyflwynwyd cofnodion drafft cyfarfod Cymdeithas CYSAG Cymru a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Glyndwr, Wrecsam ar 24ain Mehefin 2010 (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) er gwybodaeth i'r aelodau.

Adroddodd y Parchedig B H Jones ar y cyfarfod a fynchodd a oedd yn brofiad defnyddiol a gwerth chweil. Cyfeiriodd yn benodol ar gyflwyniad Panel Ymgynghorol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol (NAPfRE) gan Aelod Cyfetholedig G. Craigen ar Ganolfan St Giles, a oedd yn ei farn ef yn gipolwg effeithiol a defnyddiol iawn ar gynlluniau'r ganolfan at y dyfodol, a gaiff ei lleoli yn Eglwys St Giles, Wrecsam. Aeth ymlaen i ganmol Sam Jesson am ei chyflwyniad NAPfRE hi ar Ddatblygu Ysbrydolrwydd mewn ysgolion cynradd. Agwedd ddiddorol o'r cyflwyniad oedd y syniad o ddefnyddio lle penodol mewn ystafell ddosbarth ar gyfer myfyrdod a/neu ymlacio. Disgrifiodd yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu ymateb cymysg i hyn gan athrawon ysgolion cynradd a byddai'n annog yr aelodau i ledaenu'r gair wrth hybu'r syniad.

Atgoffwyd yr Aelodau bod cyfarfod Cymdeithas CYSAG Cymru yr hydref i'w gynnal ar ddydd Gwener 26ain Tachwedd yng Ngherffili, a'i bod yn bwysig cael cynrychiolaeth lawn gan y pwyllgor. Cytunodd y cynrychiolwyr gyflwyno unrhyw ymddiheuriadau i Tania ap Siôn, gan roddi digon o rybudd.

PENDERFYNWYD derbyn cofnodion Cymdeithas CYSAG Cymru a gynhaliwyd ar 24ain Mehefin 2010.

7 GWYL 'DATHLU ADDYSG GREFYDDOL'

Cyfeiriodd yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu AG at y gwaith o gynllunio ar gyfer yr Ŵyl AG ym Mawrth 2011 a gofynnodd i'r Aelodau adolygu cynnydd y digwyddiadau sydd i'w cynnal yn ystod y dathliad, sy'n fis o dathlu a hyrwyddo AG mewn ysgolion.

Dosbarthwyd cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd gan yr isbwyllgor 'Gŵyl AG' yn Ysgol Llywelyn, y Rhyl ar 8fed Gorffennaf:

Eitem 8: Roedd Cate Harmsworth wedi cynnig hwyluso 'Offeren Dawns'. Esboniodd na fyddai'n medru cynnig cymaint o ymrwymiad i'r prosiect hwn ag a ragwelodd, yn anffodus, ac y byddai ond yn rhydd ar ddydd Mercher. Cytunodd yr Uwch

Ymgynghorydd Dysgu ystyried yr amserau a oedd ar gael a chysylltu â Cate o ran cynnwys rhywbeth, gan fod y prosiect blaengar wedi cael derbyniad da. Byddai hefyd yn archwilio'r sefyllfa mewn perthynas â 'thrwydded cyfryngau' gan fod y Pwyllgor o'r farn bod gan y rhan fwyaf o ysgolion drwydded cyfryngau nawr, yn eu galluogi i ddefnyddio cerddoriaeth fasnachol i ddawnsio ac ati heb dorri unrhyw hawlfraint.

Adroddodd yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu y byddai Cadeirlan Llanelwy yn codi ffi o £200 i gynnal y digwyddiad cenedlaethol. Roedd hyn yn golygu oddeutu £75 i Gyngor Sir Ddinbych yn uniongyrchol. Cytunodd yr Aelodau y byddai'n gyfle rhagorol i godi proffil y Gadeirlan ac os na ellid trafod yn wahanol, y dylid talu'r ffi. Cytunodd yr Aelodau bod Cyngor Sir Conwy yn cael eu hysbysu o'r datblygiadau ar y cynlluniau a'r trefniadau ar gyfer Llanelwy.

Cynhelir y digwyddiad i lansio Dathlu AG ar 2il Mawrth 2011. Cytunwyd bod 4 cynrychiolwyr CYSAG yn mynychu. Hysbyswyd yr Aelodau y byddai Archesgob Cymru yn bresennol.

Byddai'r Uwch Ymgynghorydd Dysgu AG yn cadarnhau manylion cyfarfod nesaf yr Isbwyllgor a dosbarthu'r manylion i'r Aelodau a oedd wedi cytuno mynychu.

PENDERFYNWYD derbyn a chydabod y diweddariad ar yr *Ŵyl* AG, gan gynnwys cofnodion yr isbwyllgor a gynhaliwyd ar 8fed Gorffennaf.

8 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

10.00 a.m. ar 7fed Chwefror 2011 yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun.

9 MATERION BRYS

Codwyd dwy eitem ar y pwynt hwn:

- i. Adroddodd Mrs B Lloyd bod cyn-Gadeirydd CYSAG, y Cynghorydd David Jones wedi marw. Hysbyswyd yr Aelodau y cynhelid ei angladd yng Nghapel Mawr, Dinbych ar ddydd Mawrth 12fed Hydref am 2pm i'r sawl a ddymunai fynychu.
- ii. Cyfeiriodd yr Aelodau at y llythyr a oedd ynghlwm wrth y rhaglen yn gofyn am ddymuniadau iaith rhaglenni ac adroddiadau CYSAG yn y dyfodol:
 - a. Pwysleisiodd y Cadeirydd bod y math o arbedion effeithlonrwydd rhagweithiol hyn yn debygol o fod yn digwydd ym mhob Llywodraeth Leol a chyfarfodydd ledled y wlad, yn wyneb cyhoeddiadau torri gwariant diweddar y Llywodraeth.
 - b. Mynegodd yr Aelodau farn gymysg o ran cytuno neu anghytuno gyda thorri'n ôl ar bapurau dwyieithog ar gyfer CYSAG
 - c. Mynegodd rhai aelodau ddiddordeb mewn derbyn papurau yn electronig, fel awgrym gwahanol i dorri i lawr ar y papur a ddefnyddir.

- d. Atgoffwyd yr Aelodau i anfon eu dymuniadau at Emily Corfield ac fe'u sicrhawyd os na fynegid dymuniad, y byddai papurau dwyieithog yn parhau i gael eu dosbarthu oni fo'r unigolyn yn gwneud cais fel arall.

Yn wyneb y sylwadau uchod, cytunodd yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu AG gynnwys eitem ar 'ddymuniadau ar y rhaglen yn y dyfodol' ar gyfer y cyfarfod nesaf ym mis Chwefror 2011 – os oedd hynny'n ymarferol.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.30a.m.

Cyngor Sir Ddinbych
Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol
(CYSAG)

Dyddiad y Cyfarfod:		7 Chwefror 2011
Eitem ar y Rhaglen	5	Manylion yr adroddiad

Cefndir yr Adroddiad:

Mae gan CYSAG ddyletswydd statudol i fonitro darpariaeth AG ac addoli cyfunol mewn ysgolion, ac mae'n arfer ganddo dderbyn a dadansoddi adroddiadau archwilio Estyn ym mhob cyfarfod.

Diben yr Adroddiad:

Hysbysu'r aelodau o ddeilliannau Adroddiadau Archwilio diweddar Estyn ar ysgolion.

Argymhellion:

- Derbyn yr adroddiad
 - Anfon llythyr at bob un o'r ysgolion yn eu hysbysu bod yr Adroddiad Archwilio wedi ei ystyried, eu llongyfarch ar y nodweddion da a nodwyd, a'u hatgoffa o wasanaethau'r Uwch Ymgynghorydd Dysgu AG a Swyddogion Gwella Ysgolion mewn perthynas ag unrhyw feysydd lle gellid gwella neu unrhyw faterion allweddol sydd angen eu hystyried.
- Gofyn i'r ALI ddsbarthu'r ysgolion i'r ysgolion dan sylw.

SYLWADAU CYD-DESTUN: ADRODDIADAU AROLYGIADAU
CYSAG SIR DDINBYCH

7 Chwefror 2011

2 Ysgol

Ysgol	Dyddiadau	Arolygwr Cofrestredig	YMCD Arol. / Cwestiwn Allweddol 3	Arol AG
Ysgol Frongoch	07/06/2010	Linda Jane Williams	Peter Clark	Peter Clark
<p><i>Ysgol gymunedol yw Ysgol Frongoch a daw mwyafrif y disgyblion o'r ardal gyfagos. Disgrifir honno fel un nad yw'n un lewyrchus na dan anfantais economaidd. Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer plant rhwng saith ac unarddeg oed ac ar hyn o bryd mae 192 o ddisgyblion ar y llyfrau.. Mae 12% o'r disgyblion yn derbyn prydau ysgol am ddim. Mae 11 o'r disgyblion yn derbyn cefnogaeth ar gyfer Saesneg fel Iaith Ychwanegol [SIY]. Arenwyd 14% o'r disgyblion fel rhai sydd ag anghenion addysg arbennig [AAA]. Mae hyn yn cynnwys 3 disgybl sydd â datganiad AAA.</i></p>				
Plas Brondyffryn	21/06/2010	Herbert James Phillips	Heather Hodges	Heddwyn Evans
<p><i>Ar hyn o bryd mae'r ysgol wedi ei lleoli ar bedwar safle. Mae'r adran gynradd sydd newydd gael ei hadeiladu yn cynnig amgylchedd dysgu cyfoes i'r plant mewn ystafelloedd dysgu sy'n cynnwys cilfachau chwarae arbenigol. Cafodd adeilad yr adran uwchradd ei gynllunio i gynnig amgylchedd addysgol sy'n cwrdd ag anghenion pobl ifanc gydag Anhwylder y Sbectwm Awtistig [ASA].. Darperir ar gyfer anghenion disgyblion gydag anawsterau mwy cymhleth mewn ardal arbenigol arall. Mae'r adeilad ar gyfer disgyblion 16 i 19 oed mewn lleoliad cyfleus ac mae'n agos at gyfleusterau lleol a'r gymuned. Mae'r adeilad preswyl, 'Gerddi Glasfryn' wedi ei lleoli ar gyrion tref Dinbych. Mae'r holl ystafelloedd wedi cael eu hail-wampio a'i moderneiddio gyda'r nod penodol o gwrdd ag anghenion disgyblion gydag ASA. Mae gan yr holl ddisgyblion a dderbynnir yn yr ysgol ddatganiad o anghenion addysg arbennig sydd yn nodi ASA neu anawsterau cyfathrebu sy'n gysylltiol â'r cyflwr. Ar hyn o bryd mae rhagor na 100 o leoedd ar gael yn yr ysgol. Mae 117 o ddisgyblion cyfwerth â llawn amser ar lyfrau'r ysgol yn gyfredol. Daw'r rhan fwyaf o'r disgyblion o gartrefi Saesneg eu hiaith ar draws yr ystod cymdeithasol-economaidd ac mae gan 21% ohonynt hawl i gael prydau ysgol am ddim. Addysgir y Gymraeg fel ail-iaith a gall y plant o gartrefi Cymraeg dderbyn addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae galluoedd ac oedrannau'r disgyblion yn amrywio yn y grwpiau dosbarth ac mae'r ysgol yn cwrdd â'u hanghenion trwy ddefnyddio rhaglenni dysgu unigol. Mae nifer y disgyblion ym mhob grŵp dosbarth yn amrywio rhwng 3 ac 11.</i></p>				

**Dadansoddiad o Adroddiadau Arolygiad
CYSAG Sir Ddinbych**

7 Chwefror 2011

**DATBLYGIAD YSBRYDOL, MOESOL, CYMDEITHASOL A
DIWYLLIANNOL**

SYLWADAU CADARNHAOL

Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol

Y ddarpariaeth ar gyfer datblygiad YMCD

2 Ysgol

- Gradd 1: Da gyda nodweddion eithriadol. *(Ysgol Frongoch)*
- Mae'r ddarpariaeth gyffredinol ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn dda gyda llawer o nodweddion eithriadol. *(Ysgol Frongoch)*
- Mae'r ddarpariaeth wedi ei chynllunio'n dda iawn ac mae'n nodwedd amlwg ym mywyd yr ysgol. *(Ysgol Frongoch)*
- Gradd 1: Da gyda nodweddion eithriadol *(Ysgol Plas Brondyffryn)*
- Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol personol y dysgwyr yn effeithiol.. *(Ysgol Plas Brondyffryn)*
- Mae'r gwerthoedd a'r sgiliau mewn rheolaeth ymddygiad a rennir, y cyfathrebu cyflawn, yr ymwybyddiaeth bersonol a disgwyliadau uchel pawb o'r staff yn nodwedd eithriadol yn yr ysgol. *(Ysgol Plas Brondyffryn)*

Y Cwricwlwm Cymreig

2 Ysgol

- Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd da i'r disgyblion ddod i wybod am draddodiadau, diwylliant a hanes Cymru. Hyrwyddir y Cwricwlwm Cymreig trwy drefnu i ymwelwyr ddod i'r ysgol ac ymweliadau allanol. *(Ysgol Frongoch)*
- Mae'r modd yr hyrwyddir dwyieithrwydd yn yr ysgol yn datblygu'n dda a defnyddir Cymraeg achlysurol yn rheolaidd yn ystod y diwrnod ysgol. *(Ysgol Frongoch)*
- Caiff y disgyblion gyfleoedd da i ddefnyddio'r Gymraeg y maent wedi ei dysgu yn yr Eisteddfod leol, yn ystod y gwasanaethau ysgol, Clwb yr Urdd a chwis llyfrau ail iaith yr ardal. *(Ysgol Frongoch)*
- Mae'r ddarpariaeth i hyrwyddo sgiliau ail iaith y disgyblion yn gyson dda iawn. *(Ysgol Plas Brondyffryn)*
- Mae arwyddion dwyieithog yn amlwg ym mhob man yn yr ysgol a defnyddir Cymraeg achlysurol yn rheolaidd yn y gwersi yn yr holl Gyfnodau Allweddol. *(Ysgol Plas Brondyffryn)*
- Mae caneuon, emynau a chaneuon actol yn cael lle amlwg yn y gwersi ac yn ystod y gwasanaethau ysgol lle mae hynny'n briodol. *(Ysgol Plas Brondyffryn)*
- Gwneir defnydd effeithiol o aelodau staff i gwrdd ag anghenion dysgwyr o gefndiroedd lle mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf. *(Ysgol Plas Brondyffryn)*

Cydymffurfriad gyda'r gofynion statudol ar gyfer cyd-addoli 2 Ysgol

- Mae'r trefniadau ar gyfer cyd-addoli yn cwrdd yn llawn â'r gofynion statudol (*Ysgol Frongoch*)
- Mae'r trefniadau cyd-addoli yn cwrdd â'r gofynion statudol. (*Ysgol Plas Brondyffryn*)

Datblygiad cymdeithasol / rhyngweithio / sgiliau rhyngpersonol
2 Ysgol

- Mae darpariaeth dda wedi ei gwneud i gefnogi datblygiad sgiliau personol, cymdeithasol a meddwl y disgyblion; mae hon yn un o nodweddion eithriadol yr ysgol. (*Ysgol Frongoch*)
- Tra mae disgyblion yn preswyllo yn yr ysgol trefnir cyfleoedd rheolaidd rhagorol iddynt er mwyn datblygu eu hyfedredd personol a chymdeithasol. (*Ysgol Plas Brondyffryn*)

Cysylltiadau gyda / ymwneud a'r gymuned leol 2 Schools

- Mae ymweliadau grwpiau theatr ac *ensembles* cerddorol yn sicrhau bod symbyliad a pherthnasedd neilltuol yn perthyn i'r dysgu. (*Ysgol Frongoch*)
- Mae'r profiadau a'r arbenigeddau sydd gan ymwelwyr o'r gymuned leol megis cyfreithwyr, personoliaethau o fyd chwaraeon, swyddogion y gwasanaethau argyfwng, arlunwyr ac awduron wed symbylu'r dysgu ymhellach ac wedi ychwanegu at y safonau a gyflawnir. (*Ysgol Frongoch*)
- Mae'r cysylltiadau cwricwlaidd gydag ysgolion a sefydliadau eraill yn eithriadol ac maent yn cael effaith gadarnhaol iawn trwy ychwanegu ar hunanhyder a hunan-barch y disgyblion. (*Ysgol Frongoch*)
- Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryfion iawn gyda mannau addoliad lleol. (*Ysgol Frongoch*)
- Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da iawn o'r gymuned leol i ddarparu profiadau real ac ystyrlon sydd yn cyfoethogi ac yn gwella dysgu'r disgyblion yn sylweddol. (*Ysgol Plas Brondyffryn*)

Entrepreuriaeth a Menter 2 Schools

- Mae sgiliau entrepreneuriaeth a'r sgiliau eraill y mae eu hangen i gefnogi datblygiad economaidd wedi eu hymsefydlu yn dda iawn. (*Ysgol Frongoch*)
- Mae disgyblion B6 yn dyfeisio ac yn gofalu am stondin yn Ffair Nadolig yr ysgol. (*Ysgol Frongoch*)
- Mae'r ysgol yn rhedeg siop nwyddau papur a gwna pob dosbarth benderfyniadau i brynu adnoddau ar gyfer chwaraeon dan do. (*Ysgol Frongoch*)
- Mae'r disgyblion sy'n rhan o'r daith sgïo flynyddol i Ffrainc yn codi arian i dalu am y bws i'r maes awyr ac yn ôl. (*Ysgol Frongoch*)
- Bu disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn ymweld â chanolfan garddio i ymchwilio ac i brynu defnyddiau ar gyfer eu prosiect menter. (*Ysgol Plas Brondyffryn*)
- Caiff sgiliau entrepreneuriaid eu hyrwyddo'n effeithiol ar draws y grwpiau oedran. (*Ysgol Plas Brondyffryn*)

Addysg yn gysylltiedig â gwaith

2 Ysgol

- Mae addysg yn berthynol i fyd gwaith yn gadarn ac wedi ymsefydlu'n dda. (*Ysgol Frongoch*)
- Gwneir darpariaeth dda iawn ar gyfer datblygu ymwybyddiaeth byd gwaith y disgyblion. (*Ysgol Plas Brondyffryn*)
- O 14 oed ymlaen mae'r disgyblion a'r myfyrwyr yn elwa'n sylweddol o'r cysylltiadau rhagorol gyda chyflogwyr, colegau lleol a Gyrfa Cymru a'r rhaglenni blaengar ym maes profiad gwaith. (*Ysgol Plas Brondyffryn*)

Cyfleoedd ar gyfer cyfrifoldeb a menter

1 Ysgol

- Trwy gyfrwng gweithgareddau a gynlluniwyd yn dda ac amser cylch a chynrychiolaeth y disgyblion ar bwllgorau'r ysgol mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd da i fod mewn swyddi cyfrifol gan ymestyn eu sgiliau trwy drafod materion o bwys a gweithio'n gydweithredol. (*Ysgol Frongoch*)

Gwybodaeth / Dealltwriaeth / Ymwybyddiaeth o draddodiadau a diwylliannau eraill

1 Ysgol

- Caiff yr holl ddisgyblion gyfle i ystyried credoau eraill ynghyd â'u rhai hwy eu hunain trwy gyfrwng ystod o themâu amlddiwylliannol a gynllunnir yn dda. (*Ysgol Frongoch*)

Cadwraeth / Hyrwyddo gwerthoedd / Moesau da / Parch

1 Ysgol

- Mae'r holl staff yn gweithio'n galed i hyrwyddo gwerthoedd cadarnhaol megis tegwch a thrwy gynig modelau ymddygiad priodol i'r disgyblion. (*Ysgol Frongoch*)

Elusennau ac achosion da

1 Ysgol

- Mae codi arian i Apêl Daeargryn Haiti wedi hyrwyddo ymwybyddiaeth y disgyblion o faterion byd-eang. (*Ysgol Frongoch*)

Darpariaeth datblygiad moesol a chymdeithasol

1 Ysgol

- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad moesol y disgyblion yn dda gyda nodweddion eithriadol. (*Ysgol Frongoch*)
- Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais amlwg ar ddatblygiad moesol. (*Ysgol Frongoch*)

Cyfleoedd i gydweithio / cydweithredu

1 Ysgol

- Mae'r ysgol yn mwynhau partneriaeth fuddiol gydag ystod eang o ddarparwyr cymunedol sy'n cyfoethogi'r cwricwlwm ac yn cefnogi ei gwaith. (*Ysgol Frongoch*)

Natur y cyd-addoli

1 Ysgol

- Mae'r sesiynau cyd-addoli yn sensitif a phwrpasol gan roi profiad ysbrydol i'r disgyblion ac amser i ddatlu cyflawniadau ac i adfyfrio ynghylch y diwrnod a aeth heibio. (*Ysgol Plas Brondyffryn*)

Gweithgareddau / Cyfleoedd all-gwricwlaidd

1 Ysgol

- Cefnogir y cwricwlwm gydag ystod eithriadol o brofiadau ychwanegol diddorol yn yr ysgol a thu hwnt iddi. Mae'r rhain, ynghyd â'r ystod eithriadol o ymweliadau preswyl diddorol a symbylus a drefnir i B4 ymlaen, gyda'r cyfan yn cyrraedd uchafbwynt gydag ymweliad rhyngwladol yn B6 yn cael effaith gadarnhaol ar sgiliau cymdeithasol y disgyblion. Mae'r ysgol yn gwneud ymdrech nodedig i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn cael cyfle i fanteisio ar y profiadau addysgol hyn sydd yn cael eu cynllunio yn dda. (*Ysgol Frongoch*)
- Mae profiadau'r disgyblion yn cael eu ehangu a'u cyfoethogi ymhellach gan yr ystod eithriadol o weithgareddau all-gwricwlaidd sydd yn hyrwyddo eu dysgu yn effeithiol yn ystod ac ar ôl y diwrnod ysgol. (*Ysgol Frongoch*)

Datblygiad Ysbrydol

1 Ysgol

- Darperir cyfleoedd o ansawdd uchel i sicrhau datblygiad ysbrydol y disgyblion. Fe'i hyrwyddir trwy gyfrwng gweithgareddau crefyddol ac esthetig. (*Ysgol Frongoch*)
- Darperir amser sydd wedi ei gynllunio ar gyfer adfyfrio a myfyrdod o natur ysbrydol yn ystod y diwrnod ysgol. (*Ysgol Frongoch*)

Datblygiad diwylliannol

1 Ysgol

- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad diwylliannol yn dda gyda nodweddion eithriadol. (*Ysgol Frongoch*)
- Rhoddir cyfleoedd niferus i'r disgyblion ddatblygu eu hymwybyddiaeth a'r gwerthfawrogiad o ddiwylliannau eraill. (*Ysgol Frongoch*)

Cynnydd disgyblion / ennill hyder / sgiliau

1 Ysgol

- Mae disgwyliadau uchel mewn perthynas ag ymddygiad a chyflawniadau ynghyd â chyfleoedd a gynlluniwyd yn dda i ychwanegu at hunanhyder a hunan-barch y disgyblion yn sicrhau bod pob un ohonynt yn gwybod eu bod o werth cyfartal fel unigolion. (*Ysgol Frongoch*)

Rhaglen ar gyfer / Effaith y ddarpariaeth ABACH

1 Ysgol

- Mae'r cynllunio ar gyfer datblygiad addysg bersonol a chymdeithasol yn hynod o drylwyr. (*Ysgol Frongoch*)

Dinasyddiaeth fyd-eang / Addysg am y Byd /Cysylltiadau rhyngwladol

1 Ysgol

- Mae cyfranogiad y disgyblion mewn prosiectau rhyngwladol megis rhoi cefnogaeth i ymgyrch i wella amodau yn Romania yn cyfrannu at ddatblygiad eu hymwybyddiaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang. *(Ysgol Plas Brondyffryn)*

Gwaith y Cyngor Ysgol

1 Ysgol

- Mae cynrychiolwyr y disgyblion ar Gyngor yr Ysgol yn eu galluogi i dderbyn profiad o fod mewn swyddi o gyfrifoldeb, i ymestyn eu sgiliau wrth drafod materion o bwys a gweithio gyda'i gilydd. *(Ysgol Frongoch)*

Ymwybyddiaeth / Hyrwyddo datblygiad cynaliadwy

1 Ysgol

- Mae cynrychiolaeth y disgyblion ar Bwyllgor eco'r ysgol yn eu galluogi i dderbyn cyfleoedd da i fod mewn swyddi cyfrifol gan ymestyn eu sgiliau wrth drafod materion pwysig a gweithio gyda'i glyd.. *(Ysgol Frongoch)*
- Mae'r ysgol wedi ennill gwobrwyon eco arian ac efydd ac mae ar hyn o bryd yn gweithio tuag at statws Lluman Gwyrdd. *(Ysgol Frongoch)*
- Bu disgyblion B6 yn monitro'r defnydd o ynni am nifer o flynyddoedd a chydabyddir yr ysgol fel y drydedd fwyaf effeithlon yn y Sir o safbwynt defnyddio ynni. *(Ysgol Frongoch)*

Ymwybyddiaeth / Hyrwyddo Datblygiad Cynaliadwy

1 Ysgol

- Rhoddir sylw da i ddatblygu gallu'r dysgwyr i werthfawrogi'r amgylchedd a datblygiad cynaliadwy ac mae trefniadau wedi eu sefydlu i ailgylchu, compostio a dilyn y Cod Cefn Gwlad pan fyddant allan ar deithiau i'r wlad. *(Ysgol Plas Brondyffryn)*

Ymwybyddiaeth o iechyd / Mentrau Ysgolion Iach

1 Ysgol

- Mae blaenoriaethau cenedlaethol megis y Clwb Brechwast, , Sgiliau Sylfaenol, Heartstart, Ysgolion Eco ac Ysgolion iach wedi ymsefydlu'n gadarn yn yr ysgol. *(Ysgol Frongoch)*

Delio gydag amddifadedd cymdeithasol a stereoteipio

1 Ysgol

- Un o nodweddion eithriadol yr ysgol yw'r ffaith fod y profiadau dysgu yn cwrdd â'r anghenion amrywiol o safbwynt eu galluoedd a'u diddordebau ac yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal ac yn herio stereoteipio. *(Ysgol Frongoch)*
- Mae'r Pennaeth a'i staff yn llwyddiannus yn eu hymdrechion i fynd i'r afael ag amddifadedd cymdeithasol a herio stereoteipio ac o safbwynt hyrwyddo cyfleoedd yr holl ddisgyblion. *(Ysgol Frongoch)*

Ymweliadau addysgol / Ymwelwyr

1 Ysgol

- Trefnir llawer o ymweliadau addysgol sydd yn gysylltiedig â'r ystod eang o bynciau cwricwlaidd sy'n cael sylw. *(Ysgol Plas Brondyffryn)*
- Mae'r dysgwyr yn ymweld yn rheolaidd â siopau er mwyn prynu defnyddiau a chynhwysion ar gyfer eu gweithgareddau ymarferol megis

paratoi pryd a thrwy hynny fe hyrwyddir eu sgiliau allweddol a'u hyfedredd mewn modd effeithiol.. (Ysgol Plas Brondyffryn)

- Trwy gyfrwng ymweliadau addysgol mae'r disgyblion ieuengaf wedi cynllunio profiadau yn y gymuned. (Ysgol Plas Brondyffryn)

Gofynion statudol ar gyfer AG

1 Ysgol

- Mae'r ysgol yn cydymffurfio gyda gofynion cyfreithiol y CC ac addysg grefyddol. (Ysgol Frongoch)

Sylwadau Negyddol

Dinasyddiaeth fyd-eang / Addysg am y Byd /Sgiliau rhyngwladol 1 Ysgol

- Er eu bod yn dechrau sefydlu cysylltiadau gyda Ffrainc ac India mae dinasyddiaeth fyd-eang yn faes y mae angen ei ddatblygu ymhellach.(Ysgol Frongoch)

ADDYSG GREFYDDOL

Sylwadau cadarnhaol

Safonau cyflawniad

2 Ysgol

- Cyfnod Allweddol 2: Gradd 1: Da gyda nodweddion eithriadol. (Ysgol Frongoch)
- Pob Cyfnod Allweddol ac ôl 16: Gradd 2 : Nodweddion da a dim diffygion pwysig. (Ysgol Plas Brondyffryn)

Gwybodaeth / Dealltwriaeth o Gristnogaeth

2 Ysgol

- Mae' rhan fwyaf o'r disgyblion yn B3 yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn am greddau ac arferion Cristnogaeth. (Ysgol Frongoch)
- Mae mwyafrif y disgyblion yn sylweddoli bod ystyr i'r symbolau crefyddol fel y rhai a welsant mewn eglwys leol ac maent yn defnyddio geirfa grefyddol gyda chywirdeb manwl. (Ysgol Frongoch)
- Mae gan y dysgwyr wybodaeth dda am wyliau Cristnogol a sut y mae Cristnogion yn dathlu eu ffydd. (Ysgol Plas Brondyffryn)
- Mae'r dysgwyr yn gwneud cardiau Pasg deniadol ac yn gwybod pam y mae Cristnogion yn eu hanfon at ei gilydd. (Ysgol Plas Brondyffryn)
- Yn CA2 mae gan y disgyblion wybodaeth dda am y traddodiadau a'r symbolau sy'n gysylltiedig â Christnogaeth. (Ysgol Plas Brondyffryn)
- Yn CA 2 mae'r disgyblion llai galluog yn arenwi'r prif arteffactau mewn eglwys. (Ysgol Plas Brondyffryn)
- Mae dysgwyr CA2 yn deall pwysigrwydd arweinyddion mewn cymunedau a gwyddant pwy yw prif arweinyddion yr eglwys Gristnogol. (Ysgol Plas Brondyffryn)
- Yn CA3 mae gan y disgyblion wybodaeth dda am y ffydd Gristnogol yn eu cymuned, gan gynnwys gwybod am y manau addoli a'r arweinyddion crefyddol. (Ysgol Plas Brondyffryn)

- Mae disgyblion CA3 yn gwybod am y prif ddigwyddiadau ym mywyd Cristion a beth yw arwyddocâd digwyddiadau Cristnogol megis y bedydd i'r sawl sy'n credu. (*Ysgol Plas Brondyffryn*)

Gwybodaeth / Deall y Beibl / Storiâu Beiblaidd

2 Ysgol

- * Mae disgyblion B5 yn adalw storiâu o'r Hen Destament yn hyderus. (*Ysgol Frongoch*)
- Mae disgyblion B1 yn trafod stori Noa gyda diddordeb gyda'r rhai mwyaf galluog ohonynt yn arenwi anifeiliaid ac adar. (*Ysgol Plas Brondyffryn*)

Gwybodaeth / Dealltwriaeth o gysyniadau crefyddol / themâu 2 Ysgol

- * Ar draws y CA mae gan bron y cyfan o'r disgyblion ddealltwriaeth a gwybodaeth hynod o dda am grefydd. Gall y mwyafrif adalw ac ymateb i ystod o'r credoau, y dysgeidiaethau a'r arferion crefyddol a astudiwyd ganddynt. Mae hon yn nodwedd eithriadol yn yr ysgol. (*Ysgol Frongoch*)
- *Mae disgyblion B3 yn trafod, gyda dealltwriaeth drawiadol, beth yw pwysigrwydd y 'pum tymor' sy'n perthyn i Hindwâeth ac amlygant ymwybyddiaeth gynyddol o'r defnydd a wneir o symbolau mewn crefydd a'r dulliau an-llythrennol a ddefnyddir i fynegi ffydd grefyddol. (*Ysgol Frongoch*)
- Yn B5 a B6 mae'r disgyblion yn amlygu lefel dda o ddealltwriaeth ynghylch pam y mae gan bobl safbwyntiau crefyddol gwahanol ac maent yn trafod maddeuant mewn perthynas â'u bywydau hwy eu hunain a phobl eraill. (*Ysgol Frongoch*)
- Mae disgyblion yn CA4 yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth dda am grefyddau a beth sy'n arbennig i bob un ohonynt. (*Ysgol Plas Brondyffryn*)
- Mae'r disgyblion mwyaf galluog yn CA4 yn datblygu dealltwriaeth dda o faterion moesol a chymdeithasol yn eu cymuned a gallant berthnasu rhai o'r materion hyn i ddysgeidiaethau crefyddol. (*Ysgol Plas Brondyffryn*)

Gwybodaeth / Dealltwriaeth / Cynhwysiant crefyddau ar wahân i Gristnogaeth
1 School

- **Mae disgyblion B3 yn trafod, gyda dealltwriaeth drawiadol, beth yw pwysigrwydd y 'pum tymor' sy'n perthyn i Hindwâeth (*Ysgol Frongoch*)
- *Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion B5 afael dda ar fywyd Mohammed a disgrifiant sut y mae rhai agweddau ar ei fywyd yn effeithio ar eu syniadau hwy eu hunain. (*Ysgol Frongoch*)

Dim diffygion

1 Ysgol

- Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig. (*Ysgol Frongoch*)

Cyfansoddi / Ysgrifennu eu gweddïau eu hunain

1 Ysgol

- Mae mwyafrif y disgyblion yn cyfansoddi gweddïau yn ymwneud â 'Mannau Arbennig' ac yn cydnabod pwysigrwydd llonyddwch a thawelwch. (*Ysgol Frongoch*)

- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion B3 yn ysgrifennu gweddïau diolchgarwch ac amlygant ddealltwriaeth dda o weddi fel ffordd o siarad gyda Duw. *(Ysgol Frongoch)*
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion B3 yn gwybod bod rhaid iddynt ofalu am yr amgylchedd ac edrych ar ôl byd Duw; adlewyrchir y pryderon hyn yn eu gweddïau personol. *(Ysgol Frongoch)*

Y defnydd o arteffactau i gyfoethogi'r dysgu a'r addysgu. 1 Ysgol

- *Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ysgrifennu'n estynedig am fywyd Moses gan gasglu gwybodaeth briodol o ystod o arteffactau crefyddol. *(Ysgol Frongoch)*

Cyfleoedd i drafod materion / teimladau / cwestiynau moesol 1 Ysgol

- *Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion B6 yn ystyried trafod materion ysbrydol a theimladau corfforol ac emosiynol mewn modd aeddfed mewn perthynas â'u taith arbennig hwy eu hunain trwy fywyd.. *(Ysgol Frongoch)*

Gwybodaeth / ymwybyddiaeth o fywydau pobl enwog 1 Ysgol

- *Mae disgyblion B3 yn awgrymu mewn modd syml sut y mae agweddau ar grefydd yn bwysig i bobl sydd â ffydd, er enghraifft, bywyd Mohandas Gandhi. *(Ysgol Frongoch)*

Cyfleoedd / gallu i fynegi eu syniadau / barn 1 Ysgol

- Mae gallu disgyblion CA4 i arfarnu ac adfyfyrio yn gwella wrth iddynt aeddfedu. Erbyn hyn maent yn mynegi eu barn eu hunain yn ddeallus ac mae'r rhai mwyaf galluog yn cefnogi eu dadleuon gyda barn bersonol. *(Ysgol Plas Brondyffryn)*

Deall yr angen am / Dangos sensitifrwydd tuag at gredoau / gwerthoedd 1 Ysgol

- *Yn ystod y trafodaethau amlygodd y disgyblion raddau uchel o oddefgarwch mewn perthynas â safbwyntiau disgyblion eraill. *(Ysgol Frongoch)*

Ymwybyddiaeth o effaith cred ar ffordd o fyw 1 Ysgol

- *Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion CA2 yn cydnabod pwysigrwydd credoau crefyddol mewn perthynas â llunio hunaniaeth unigolion a chymunedau ffydd. *(Ysgol Frongoch)*
- *Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion B5 afael dda ar hnaes bywyd Mohammed a disgrifiant sut y mae rhai agweddau er ei fywyd yn effeithio ar eu barn hwy eu hunain. *(Ysgol Frongoch)*
- Mae llawer o ddisgyblion B4 yn disgrifio'n fanwl sut y mae rhai agweddau ar grefydd yn effeithio ar fywydau credinwyr. *(Ysgol Frongoch)*

Ymwybyddiaeth o gwestiynau yn codi o brofiadau dydd i ddydd. 1 Ysgol

- *Mae disgyblion CA2 yn siarad yn hyderus am eu profiadau hwy eu hunain a'r materion sy'n deillio o'u profiadau ym myd natur a chydberthnasau personol. (*Ysgol Frongoch*)

Esiampiau o Gymry cyfoes / Y Cwricwlwm Cymreig ac AG 1 Ysgol

- Mae disgyblion B4 yn astudio pwysigrwydd teithiau arbennig fel pererindodau, er enghraifft, bywyd Mary Jones. (*Ysgol Frongoch*)

Perthnasu eu bywydau hwy eu hunain gyda bywydau pobl eraill 1 Ysgol

- * yn ystod trafodaethau mae'r disgyblion yn trafod pwysigrwydd y Deg Gorchymyn yn eu bywydau dydd i ddydd yn hyderus. (*Ysgol Frongoch*)

Gwahaniaethu / Perfformiad y llai galluog mewn perthynas â'u gallu 1 Ysgol

- * Mae disgyblion SIY a rhai gydag AAA yn cyflawni safonau da. (*Ysgol Frongoch*)

*** Nodweddion Eithriadol yr Adroddiad ar yr Arolygiad**

Sylwadau Negyddol

Dim diffygion

1 Ysgol

- Mae lleiafrif o ddisgyblion yn CA3 a CA4 oherwydd eu hanghenion arbennig, yn cael trafferth i fynegi eu credoau ar sail adfyfrio personol. (*Ysgol Plas Brondyffryn*)

Cyngor Sir Ddinbych
Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol
(CYSAG)

Dyddiad y Cyfarfod:		7 Chwefror 2011
Eitem ar y Rhaglen:	5a	Manylion yr Adroddiad:
<u><i>Cefndir yr Adroddiad:</i></u> Fframwaith Archwilio Estyn, Iansiyd Medi 2010.		
<u><i>Diben yr Adroddiad:</i></u> Hysbysu'r Aelodau o'r newidiadau yn y trefniadau i adrodd ar archwilio ysgolion oherwydd gweithrediad Fframwaith newydd Estyn		
<u><i>Argymhellion:</i></u> <ul style="list-style-type: none">▪ Bod yr Aelodau'n derbyn, trafod a chytuno ar fformat yr adroddiad▪ Anfon llythyr at yr ysgol yn eu hysbysu bod eu Hadroddiad Archwilio wedi ei ystyried, eu llongyfarch ar nodweddion da a nodwyd, a'u hatgoffa o wasanaethau'r Uwch Ymgynghorydd Dysgu AG a Swyddogion Gwella Ysgolion mewn perthynas ag unrhyw feysydd lle gellid datblygu neu faterion allweddol sydd angen eu hystyried. Gofyn i'r ALI ddsbarthu'r llythyr .		

Eitem Agenda Rhif 5a

Dadansoddiad o Adroddiadau Arolygu
CYSAG Sir Ddinbych

7 Chwefror 2011

Arolygwyd dan Fframwaith newydd Estyn

Ysgol	Dyddiadau	Arolygwr Adrodd
Ysgol Emmanuel	Hydref 2010	Richard Hawley
<p><i>Mae Ysgol Emmanuel wedi ei lleoli yn nhref glan y môr y Rhyl. Mae 406 o ddisgyblion llawn amser wedi'u cofrestru gyda 61 o blant eraill yn mynychu'r feithrinfa yn rhan amser. Mae'r Ysgol yn disgrifio'r ardal fel un sydd gan mwyaf yn gymdeithasol ac economaidd ddifreintiedig. Mae hawl gan oddeutu 49% o'r disgyblion i gael prydau ysgol am ddim. Saesneg yw iaith y cartref y rhan fwyaf o'r disgyblion. Ar hyn o bryd mae 21 disgybl yn derbyn cymorth gyda Saesneg fel iaith ychwanegol. Nid oes yno unrhyw ddisgyblion sy'n defnyddio'r Gymraeg fel iaith gyntaf. Mae oddeutu 32% o'r disgyblion wedi eu dynodi fel rhai gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol ac mae gan 13 disgybl ddatganiad o Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae'r ysgol wedi cyflawni Dyfarniad Buddsoddwyr Mewn Pobl, lefel 3 Ysgolion Iach, y Nod Ansawdd Sgiliau Sylfaenol, y Dyfarniad Ysgolion Rhyngwladol, Gwobr Aur Eco-Ysgolion a Dyfarniad Asiantaeth Cyfathrebu a Thechnoleg Addysgol Prydain (BECTA). Mae Ysgol Emmanuel yn ysgol beilot ar gyfer y Cyfnod Sylfaen.</i></p>		

Perfformiad Cyfredol yr Ysgol: Rhagorol

Mae gan yr ysgol lawer o gryfderau gan gynnwys amryw sy'n arwain y sector. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Safonau uchel iawn llesiant ysgolion
- Ansawdd ragorol gofal, cefnogaeth a chyfarwyddyd

Rhagolygon gwella'r ysgol: Rhagorol

Cwestiwn Allweddol 1: Llesiant: Rhagorol

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? Da

Profiadau dysgu: Da

